

Gweithgaredd 9

Ffoaduriaid – daethant am fod rhaid iddynt

Nod: Annog plant i ddysgu a deall sefyllfa ffoaduriaid a'r hawl sydd ganddynt i geisio lloches drwy gyfrwng cwis, stori a chwarae rôl. **Amser:** 1-2 awr. **Oedran:** 9+. Efallai bod rhai o'r plant yn eich dosbarth yn ffoaduriaid, neu'n gwybod am aelodau o'u teulu sydd wedi bod drwy brofiadau tebyg. Felly, os gwelwch yn dda, a wnewch chi gynnal y gweithgaredd hwn mewn modd sensitif.

Yr hyn sydd ei angen arnoch: PowerPoint Ffoaduriaid (ar y CD); siart droi a phennau blaen ffelt (fesul grŵp); taflen waith *Teulu Ewyrth Ali* (ar y CD, un i bob grŵp); stori *Ty Ewyrth Ali* (ar y CD, un copi i'r athro); PowerPoint *Bygythiad i fywyd Ewyrth Ali* (ar y CD).

Beth i'w wneud

Gan ddefnyddio'r PowerPoint Ffoaduriaid sy'n dod gyda'r pecyn hwn, dangoswch y rhestr o enwogion (gweler 1 a 2 isod). Beth sydd gan bob un o'r rhain yn gyffredin? Pa brofiad unigol mae pob un ohonynt wedi ei rannu?

Esboniwch fod pob un ohonynt (ynghyd â miliynau ar filiynau o bobl eraill) wedi gorfod gadael eu gwledydd fel ffoaduriaid.

Gofynnwch i'r plant am enw unrhyw un y gallant feddwl amdano, efallai rhywun yn eu teuluoedd eu hunain, a oedd yn ffoadur.

Diffiniadau

Yn awr, gofynnwch i'r dosbarth ysgrifennu beth yw eu diffiniadau eu hunain o:

- erledigaeth;
- ffoadur;
- ceisiwr lloches (gweler isod, 3).

Rhannwch, trafodwch a chymharwch ddiffiniadau – cofnodwch atebion ar y bwrdd, gan ychwanegu unrhyw eiriau angenrheidiol er mwyn amlygu elfennau allweddol.

Nawr, dangoswch y sleidiau (isod, rhifau 4 hyd 6) a siaradwch am y diffiniadau.

ERLEDIGAETH sef trin eraill mewn modd creulon yn barhaus, oherwydd eu cenedl, crefydd, gwleidyddiaeth neu ryw wahaniaeth arall. Yn yr ysgol, mae bwllian yn ffurf ar erledigaeth.

FFOADUR yw rhywun y mae llywodraeth wedi cytuno eu bod wedi ffoi o'u gwlad oherwydd ofn y byddent yn cael eu herlyn am eu credoau neu eu meddyliau, oherwydd eu cefndir neu gred, neu'r grwpiau maent yn perthyn iddynt. Maent yn cael hawl i aros yn eu gwlad newydd mor hir ag y bo eisiau.

Mae'r gair REFUGEE ei hun yn air a grëwyd gan ffoaduriaid. Mae'n dod o'r gair Ffrangeg *réfugier* (sy'n golygu 'ffoi').

CEISIWR LLOCHES yw rhywun sydd wedi ffoi o'u mamwlad oherwydd ofn cael eu herlyn, ac sydd wedi gofyn i lywodraeth gwlad arall i'w cydnabod fel ffoadur.

Ffoaduriaid yn y byd

C Gofynnwch i'r dosbarth faint o ffoaduriaid sydd yn y byd.

A Oddeutu 15.2 miliwn – maent wedi gorfod ffoi rhag cael eu herlyn yn eu gwlad eu hunain i chwilio am ddiogelwch rhywle arall.

<p>1</p> <p>Trafodaeth gychwynnol</p> <ul style="list-style-type: none">• Judith Kerr, awdur <i>The Tiger who Came to Tea</i>• Albert Einstein, gwyddonydd• Y Dasi Lama• Y Tywysog Philip, Dug Caeredin• Chief Siting Bull, anweinydd y Sikeid 	<p>2</p> <p>Trafodaeth gychwynnol</p> <ul style="list-style-type: none">• Laszlo Biro, dyfeisiwr yr ysgrifin Biro• MIA, artist rap• Mario Stano, pŵl-droediwr• Alec Issigonis, dyfynydd y car Mini 	<p>3</p> <p>Erledigaeth Ffoadur Ceisiwr lloches</p>	<p>4</p> <p>DIFFINIAD O Erledigaeth</p> <ul style="list-style-type: none">• ERLEDIGAETH sef trin eraill mewn modd creulon yn barhaus, oherwydd eu cenedl, crefydd, gwleidyddiaeth neu ryw wahaniaeth arall. Yn yr ysgol, mae bwllian yn ffurf ar erledigaeth.
<p>5</p> <p>DIFFINIAD o Ffoadur</p> <ul style="list-style-type: none">• FFOADUR yw rhywun y mae llywodraeth wedi cytuno eu bod wedi ffoi o'u gwlad oherwydd ofn y byddent yn cael eu herlyn am eu credoau neu eu meddyliau, oherwydd eu cefndir neu gred, neu'r grwpiau maent yn perthyn iddynt. Maent yn cael hawl i aros yn eu gwlad newydd mor hir ag y bo eisiau.	<p>6</p> <p>DIFFINIAD O Ceisiwr lloches</p> <ul style="list-style-type: none">• CEISIWR LLOCHES yw rhywun sydd wedi ffoi o'u mamwlad oherwydd ofn cael eu herlyn, ac sydd wedi gofyn i lywodraeth gwlad arall i'w cydnabod fel ffoadur.	<p>7</p> <p>Y gwledydd sy'n cynhyrchu'r nifer fwyaf o ffoaduriaid</p> 	<p>8</p> <p>Y gwledydd sy'n derbyn y nifer fwyaf o ffoaduriaid</p> 

Gweithgaredd 9

Ffoaduriaid parhad

Gweler
ADNODDAU
CD ar gyfer
Stori Ewythr Ali

Dangoswch y map cyntaf (7, tudalen flaenorol) sy'n dangos y prif wledydd mae ffoaduriaid wedi dianc ohonynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf: sef Affganistan, Swdan, Irac, Gweriniaeth Ddemocratig y Congo, Burma, Viet Nam, Somalia a Cholombia.

C Pa ganran o ffoaduriaid sydd yn y DU?
A **Llai na 2%**

Dangoswch yr ail fap (8, tudalen flaenorol) sy'n rhestru'r gwledydd hynny sy'n derbyn y nifer fwyaf o ffoaduriaid. Mae'n dangos bod y mwyafrif o ffoaduriaid yn ffoi o un wlad dlawd i geisio lloches mewn gwlad dlawd arall sy'n gyfagos.

Tŷ Ewythr Ali

Darllenwch *Dŷ Ewythr Ali*, stori ryngweithiol ynglŷn â phrofiadau un teulu (ar y CD). Bydd y plant yn derbyn gwahoddiad i gamu mewn i esgidiau'r teulu wrth iddynt wynebu perygl cynyddol ac erledigaeth, penderfynu p'un ai i ffoi neu beidio, gwneud y daith beryglus at y ffin a cheisio lloches mewn gwlad arall. Mae'n stori ddychmygol ond, mewn nifer o ffyrdd, mae hefyd yn stori wir – dros 15 miliwn o weithiau drosodd.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bum disgybl, a dosbarthwch daflenni o bapur siartiau troi, pennau blaen ffelt a chopiau o daflen waith Ewythr Ali i'r teulu.

Darllenwch y stori, gan gymryd saib yn y manau priodol yn ôl y cyfarwyddiadau, fel bod y grwpiau yn gallu cwblhau'r tasgau:

1. Pwy ddylai fynd?
2. Beth ddylent fynd gyda hwy?

Ar ddiwedd y stori, ewch yn ôl at pam y dywedoch fod y stori ddychmygol hon yn wir dros 15 miliwn o weithiau trosodd. Mae dros 15 miliwn o ffoaduriaid yn y byd, llawer ohonynt wedi goroesi profiadau tebyg.


Trafodaeth

- Sut oeddech chi'n teimlo pan roddoch eich hun yn esgidiau ffoadur?
- Oeddech chi'n credu bod eu triniaeth ar y ffin yn un deg?
- Ydy hyn wedi newid eu safbwynt o geiswyr lloches yn y wlad hon?

Gwaith cartref/ymestyn

- Gall y plant fynegi eu teimladau ynglŷn â'r gweithgaredd hwn ar ffurf barddoniaeth neu ddarlun.

© Marie-Anne Ventura



Ffynhonnell: Daw'r holl ystadegau allan o'r adroddiad blynyddol diweddaraf Uwch Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid 2009 *Global Trends*. www.unhcr.org